

CYNGOR CYMUNED LLANDYBÏE
LLANDYBIE COMMUNITY COUNCIL

Polisi Hylendid Dŵr

1. Rhagarweiniad

Mae Cyngor Cymuned Llandybie yn derbyn ei gyfrifoldeb yn ôl y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, (fel y'i diwygiwyd), i gymryd pob gofal i atal neu reoli effeithiau niweidiol dŵr halogedig ar staff, ymwelwyr neu bersonau eraill a fydd yn gweithio yn, neu'n defnyddio, ei safleoedd, ac yn gwneud ei orau i leihau unrhyw risg i'r cyhoedd.

2. Crynodeb Gweithredol

Fel y mynnir gan Gôd Ymddygiad a Gymeradwywyd y Comisiwn Iechyd a Diogelwch, a'r canllawiau ynghylch y rheoliadau, mae'n rhaid i Gyngor Cymuned Llandybie:

- Adnabod ac asesu ffynhonnell y risg
- Paratoi system rheoli i atal, lleihau neu reoli'r risg
- Gweithredu, rheoli a monitro'r rhagofalon – os ydy'r mesurau rheoli i ddal i fod yn effeithiol bydd monitro'r systemau a'r mesurau rheoli yn reolaidd yn hanfodol.
- Cynnal cofnodion addas a digonol o'r rhagofalon a weithredwyd.
- Penodi person cymwys sy'n meddu ar awdurdod digonol, a gwybodaeth digonol am y gosodiad, i helpu cymryd y mesurau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r gyfraith.
- Adolygu'r polisi hwn yn reolaidd (o leiaf yn flynyddol) ac, yn benodol, pan fo rheswm i gredu nad yw'r polisi a'r cynllun ysgrifenedig gwreiddiol bellach yn ddilys.
- Sicrhau bod eitemau a ddynodir gan WRAS yn cael eu defnyddio mewn systemau dŵr lle bynnag bo hynny'n bosibl.

3. Datganiad Polisi

Bydd Cyngor Cymuned Llandybie yn darparu fframwaith i atal haint a achosir, drwy anadlu i mewn neu allsugno, gan facteria a gludir gan ddŵr. Nod y polisi hwn yw cynnal amserlen adrodd yn ôl a strwythurir, at bwrpas Rheoli Legionellosis, gan gynnwys Clefyd y Llengfilwyr, i sicrhau cydymffurfedd â'r ddeddfwriaeth, canllawiau ac arfer da cyfredol. Gweithredu cynllun rheoli tymheredd fydd y brif strategaeth amddiffyn i leihau'r risgau a achosir gan legionella.

Mabwysiadwyd gan y Pwyllgor Polisi ar Chwefror 5^{ed} 2020, a'i gadarnhau gan y Cyngor Llawn ar Chwefror 26^{ain} 2020.

Llofnod Cadeirydd

Llofnod..... Clerc